Polisi Diogelu Corfforaethol

Diogelu Pobl yn Sir Gaerfyrddin

Diweddarwyd Mehefin 2026 (V7)



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Gwybodaeth Allweddol	
Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol	**Darren Mutter**
Aelod Arweiniol dros Ddiogelu	**Y Cynghorydd Jane Tremlett** **Aelod Cabinet dros Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion**
Rhoi gwybod am Bryder ynghylch Oedolyn	**0300 333 2222**
Rhoi gwybod am Bryder ynghylch Plentyn	**01554 742322**
Rhoi gwybod am Bryder ynghylch Oedolyn neu Blentyn - Tu Allan i Oriau	**0300 333 2222**
Mewn Argyfwng – Cysylltwch â Heddlu Dyfed-Powys	**999**

Cynnwys

Cyflwyniad 4
Amcanion y Polisi hwn 5
Egwyddorion 5
Cwmpas 5
Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cysylltiedig 6
Cyd-destun Strategol 7
Llywodraethu 8
Strwythur Llywodraethu Diogelu Corfforaethol 10
Rolau a Chyfrifoldebau 15
Cydnabod pryderon ac ymateb iddynt 22
Delio â phryder diogelu 23
Rhoi gwybod am bryder 24
Monitro ac Adolygu 24
Atodiad 1 25
Atodiad 2 34
Atodiad 3 35
Atodiad 4 40

Cyflwyniad

Mae diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn flaenoriaeth fawr i Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer **pob aelod o staff a Gwasanaeth** yn y Cyngor, gan nodi cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn ogystal â'r dulliau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i wybod yn sicr ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gyflogeion, gweithlu, gwirfoddolwyr, a chynghorwyr y Cyngor Sir, a darparwyr gwasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor. At ddibenion y polisi hwn, diffinnir 'gweithlu' fel y rheiny sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor, gan gynnwys cyflogeion parhaol a dros dro, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr a gyflogir gan asiantaethau cyflogaeth, contractwyr ac ymgynghorwyr.

Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb, pa un a ydynt yn gweithio i'r Cyngor ynteu ar ran y Cyngor.

Y bwriad yw y bydd y Polisi Diogelu Corfforaethol hwn yn ategu ac nid yn disodli unrhyw gyfrifoldebau sydd eisoes wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, polisi neu ganllawiau.
Mae'r polisi corfforaethol yn ategu dogfennau diogelu eraill yr awdurdod lleol fel:

- **Polisi a Chanllawiau Recriwtio Diogel**
- **Polisi Datgelu Camarfer**
- **Polisi / Gwiriadau a Hunan-ddatgeliadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - Canllawiau i reolwyr**
- **Canllawiau i Wirfoddolwyr**
- **Canllawiau Caffael**
- **Canllawiau ynghylch Safonau Ymddygiad**
- **Côd Ymddygiad (Rhan o Gyfansoddiad y Cyngor)**

Amcanion y Polisi hwn

- Nodi sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei rwymedigaethau tuag at ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

- Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, cynghorwyr, staff, gwirfoddolwyr a phobl sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor bod trefniadau effeithiol yn eu lle i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

- Sicrhau bod y gweithlu cyfan, fel y'i diffinnir uchod, yn dilyn protocolau a gweithdrefnau diogelu sylfaenol yn ystod eu gwaith er mwyn cyfrannu at amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Egwyddorion

- Mae gan bob plentyn ac oedolyn sy'n wynebu risg (beth bynnag ei gefndir, diwylliant, oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd, cred grefyddol) yr hawl i fod yn rhan o gymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, bwlio neu wahaniaethu.

- Mae gan bob plentyn ac oedolyn sy'n wynebu risg yr hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed, esgeulustod, camfanteisio a chamdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl y gallai'r Cyngor fod yn eu cyflogi.

- Mae gan yr holl gyflogeion, cynghorwyr, gwirfoddolwyr a'r sawl sy'n gweithio i'r Cyngor neu gyda'r Cyngor gyfrifoldeb am amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso a gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi eu buddiannau gorau.

- Bydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar ac yn ymdrechu i atal sefyllfaoedd lle gall camdriniaeth, esgeulustod neu niwed ddigwydd.

Cwmpas

Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: -

Plentyn sy'n wynebu risg yw plentyn sy'n:

- profi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, neu sy'n wynebu risg o hynny,
- sydd ag anghenion gofal a chymorth, boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio.

Oedolyn sy'n wynebu risg yw oedolyn sy'n:

- profi camdriniaeth, esgeulustod, neu sy'n wynebu risg o hynny,
- sydd ag anghenion gofal a chymorth, boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio ac;
- sydd methu amddiffyn ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r esgeulustod, neu'r risg o hynny, o ganlyniad i'r anghenion hynny.

Y diffiniad o blant a phobl ifanc yw unrhyw un nad yw wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Nid yw hyn yn eithrio person ifanc 16 oed sydd mewn Addysg Bellach, neu sy'n aelod o'r Lluoedd Arfog, yn yr ysbyty, mewn sefydliad i droseddwyr ifanc, neu yn y carchar. Amlinellir esboniad llawn o bob math o gam-drin ac esgeuluso yn **Atodiad 1.**

Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cysylltiedig

Mae'r Cyngor wedi ymroi o hyd i Ddatganiad Hawliau Dynol 1945, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn, yn ogystal ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yw cryfhau ac adeiladu ar yr ymarfer diogelu presennol yng Nghymru i sicrhau bod pobl yn gallu byw eu bywydau i'r eithaf. Mae dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth ynghyd â phwyslais ar rannu cyfrifoldeb a gweithio mewn partneriaeth.

"Er mai'r Cyngor yw'r sefydliad sy'n gwneud ymholiadau i nodi a yw unigolyn yn wynebu risg o niwed, neu gamdriniaeth, ac i gydlynu ymateb, dylai fod yn glir fod Diogelu yn fusnes i bawb ac i'r perwyl hwn ni ellir cyflawni'r cyfrifoldeb hwn ar wahân i eraill a heb arweinyddiaeth glir ac atebol." Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, diffinnir llesiant trwy wyth agwedd, ac un ohonynt yw amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mewn perthynas â phlentyn, mae llesiant hefyd yn cynnwys ei ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol; a'i les (sicrhau ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel rhag niwed).

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chanllawiau Diogelu Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r trefniadau sydd ar waith y mae Cyngor yn eu gwneud i sicrhau bod ei holl gyflogeion yn cyfrannu i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion a allai fod yn wynebu risg o niwed. Mae hon yn ddogfen ganllaw sy'n helpu pawb sy'n gweithio dros wasanaethau'r Cyngor i ddeall sut y gallant chwarae rôl hanfodol wrth ddiogelu plant ac i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran atal cam-drin plant ac oedolion, gan hyrwyddo eu llesiant.

Ym mis Ionawr 2020 pasiodd y Senedd Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf") Llywodraeth Cymru. Y nod cyffredinol yw helpu i amddiffyn hawliau plant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru. Nid yw'r newid yn y gyfraith yn creu trosedd newydd, yn hytrach mae'n dileu amddiffyniad cyfreithiol 160 oed - amddiffyniad cosb resymol - fel na ellir ei ddefnyddio gan unrhyw un sydd wedi'i gyhuddo o ymosodiad cyffredin ar blentyn.

Y man cychwyn cyfreithiol i gyflawni'r amcan hwn yw dyletswydd gweithwyr proffesiynol i roi gwybod am honiadau o gam-drin ac esgeuluso. Mae'r gyfraith hefyd yn enwi'r Awdurdod Lleol fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer gwneud ymholiadau i ganfod p'un a yw unigolyn mewn perygl ac i gydlynu'r ymateb i'w amddiffyn. Yn ymarferol nid yw hyn byth yn cael ei gyflawni ar wahân i eraill na heb arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer y gwaith sydd wedi'i nodi yn yr un modd mewn cyfraith, ynghyd â'r ddyletswydd i gydweithredu a chydweithio ag eraill.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ymarfer da o ran diogelu yn dwyn ynghyd yr holl weithgarwch sydd wedi'i fwriadu i hybu ymarfer diogel gyda grwpiau agored i niwed ac atal pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Dylai cyflogeion a chynghorwyr weithredu yn unol â'r Cod Ymddygiad proffesiynol perthnasol.

Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno rhagor o ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cysylltiedig.

Cyd-destun Strategol

Mae'r polisi yn ategu 6 gwerth craidd y Cyngor.

Un Tîm	Adnabod a chefnogi, Datblygu a hyfforddi, Addasu i newid
Cwsmeriaid yn Gyntaf	Ffocws Cwsmeriaid, Datblygu Perthnasoedd a Gwasanaethau Dwyieithog, Parchu ein Hamgylchedd
Uniondeb	Arwain a Dirprwyo, Gwneud Penderfyniadau, Mynd i'r afael â Risg, Cynhwysiant a Gwerthoedd
Rhagori	Dysgu a Datblygu, Arloesi, Dadansoddi
Cymryd Cyfrifoldeb	Gweithredu, Rheoli Perfformiad, Canlyniadau o Ansawdd, Dangos Cyfrifoldeb
Gwrando	Cyfathrebu ag eraill, Deall eraill, Gwrando ar eraill

Mae'r Polisi hefyd yn cyd-fynd â strategaeth gorfforaethol y Cyngor a chyflawni ei 4 amcan llesiant sy'n canolbwyntio ar:

Dechrau'n Dda	Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd
Byw a Heneiddio'n Dda	Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda
Cymunedau Ffyniannus	Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus
Ein Cyngor	Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon

Mae'r polisi yn nodi dull ataliol sy'n sicrhau bod mesurau diogelu yn cael eu rhoi ar waith yn rhagweithiol i atal cam-drin ac esgeulustod rhag digwydd.

Mae angen gweithlu o unigolion cymwys ar y Cyngor sy'n gallu nodi achosion lle ceir sail dros bryder ynghylch lles plentyn neu oedolyn, a chychwyn neu gymryd camau priodol i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r polisi yn gofyn am waith partneriaeth effeithiol rhwng pawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg.

Llywodraethu

Mae'r cyfrifoldeb am fonitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol ar draws Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ei ddirprwyo i'r **Grŵp Diogelu Corfforaethol,** sy'n cael ei gefnogi gan sawl grŵp cyflawni.

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn atebol i'r

▶	Tîm Rheoli Corfforaethol
▶	Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
▶	Cabinet

Adrodd

Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cyflwyno diweddariad chwe-misol ar drefniadau a gweithgareddau Diogelu Corfforaethol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yn ogystal ag adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.


Yn ogystal, fel partner statudol i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu diweddariad blynyddol sy'n amlinellu'r trefniadau corfforaethol sydd ar waith i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rôl y Pwyllgor Craffu yw adolygu a chraffu ar benderfyniadau a gwneud adroddiadau neu argymhellion mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.

Bydd y pwyllgor craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi her adeiladol i'r Cyngor ynghylch ei weithgarwch diogelu corfforaethol mewn modd diduedd ac annibynnol.

Strwythur Llywodraethu Diogelu Corfforaethol



Y Grŵp Diogelu Corfforaethol (Llywodraethu Diogel)

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi ymrwymo i Lywodraethu Diogel dan arweiniad set ddiffiniedig o flaenoriaethau allweddol sydd wedi'u llywio gan arsylwadau'r Cabinet a Chraffu, archwilwyr mewnol ac allanol, a rheoleiddwyr. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni a'u monitro gan grwpiau cyflawni diogelu corfforaethol, gyda phwyslais ar weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau diogelu statudol. Bydd y grŵp yn gwirio bod gan bob maes gwasanaeth drefniadau diogelu cynhwysfawr sy'n destun archwilio a goruchwylio rheolaidd.

Bydd aelodau'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn chwarae rôl weithredol wrth sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion. Bydd pob aelod o'r grŵp yn hyrwyddo diogelu o fewn ei gyfarwyddiaeth a'r sefydliad ehangach. Bydd aelodau yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau diogelu corfforaethol a sicrhau lefelau uchel o gydymffurfiaeth. Bydd gan bob aelod o'r grŵp fynediad brys at y Cyfarwyddwr Statudol, y Prif Weithredwr Cynorthwyol neu'r Aelod Arweiniol dros Ddiogelu os oes angen. Os bydd unrhyw aelod o'r grŵp yn methu mynychu cyfarfod, rhaid i'r aelod sicrhau bod swyddog priodol yn bresennol yn ei le. Mae'n rhaid rhoi gwybodaeth briodol i'r swyddog sy'n dirprwyo, ac mae'n rhaid ei fod yn gallu cyfrannu'n llawn at y cyfarfod.

Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a fydd yn nodi newidiadau mewn themâu a'r dysgu a strategaethau a weithredir i fynd i'r afael â'r newidiadau hynny, yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol, ac yn adrodd ar berfformiad diogelu pob maes gwasanaeth. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Bydd Cadeirydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn rhoi gwybod i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru am unrhyw faterion brys sy'n codi neu themâu sy'n dod i'r amlwg a allai fod yn berthnasol i'r rhanbarth ac ar draws asiantaethau.

Bydd aelodau'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cynnwys y swyddogion canlynol-

- **Cadeirydd** - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Aelod Arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol (Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion)
- Y Prif Weithredwr Cynorthwyol - Rheoli Pobl a Pherfformiad
- Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden
- Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Rheolwr Gwasanaeth Amddiffyn Plant (Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol)
- Uwch-reolwr Amddiffyn Oedolion (Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol)
- Cynrychiolwyr Diogelu Dynodedig y Gyfarwyddiaeth
- Cadeirydd y Grŵp Cyflawni - Partneriaethau Diogel
- Cadeirydd y Grŵp Cyflawni - Gweithlu a Gweithle Diogel
- Cadeirydd y Grŵp Cyflawni - Ymarfer a Pherfformiad Diogel
- Cadeirydd y Grŵp Cyflawni - Grŵp Gweithredol Lleol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (I'w gadarnhau)

Bydd Swyddogion eraill yn cael eu cyfethol yn ôl yr angen a chytunir arnynt gan y grŵp.

Mae cylch gorchwyl y Grŵp Diogelu Corfforaethol i'w weld yn **Atodiad 3.**

Bydd cymorth busnes dynodedig yn cael ei ddarparu.

Caiff y Grŵp Diogelu Corfforaethol ei gefnogi gan bedwar Grŵp Cyflawni, pob un â'i feysydd ffocws allweddol ei hun. Bydd y grwpiau cyflawni yn cwrdd bob chwarter a byddant yn adrodd wrth y Grŵp Diogelu Corfforaethol. Cadeirydd y grwpiau fydd uwch-swyddog a fydd yn sicrhau bod y meysydd blaenoriaeth, y cynlluniau gweithredu a'r mesurau perfformiad cysylltiedig yn cael eu goruchwylio'n gadarn. Rhestrir rhai o'r prif feysydd ffocws isod:

Grŵp Cyflawni Gweithle / Gweithlu Diogel

- Diogelu fel cyfrifoldeb ar bawb.
- Recriwtio diogel
- Dadansoddi anghenion hyfforddi
- Darparu Hyfforddiant
- Polisïau'r Gweithlu a'r Gweithle
- Polisi/gwiriadau'r DBS
- Contractau Allanol / Gwirfoddolwyr
- Rolau a chyfrifoldebau
- Codi ymwybyddiaeth/cyfathrebu.
- Rhoi gwybod am gam-drin ac esgeuluso

Grŵp Cyflawni Ymarfer a Pherfformiad Diogel

- Diogelu fel cyfrifoldeb ar bawb
- Polisïau Diogelu
- Mesurau Perfformiad
- Archwiliadau / arolygiad
- Adolygu a Monitro
- Ymgorffori Dysgu ar y Cyd
- Rhannu gwybodaeth
- Camau gwella / Ymarfer da
- Ymyrraeth Gynnar/Atal
- Llais y Plentyn/Oedolyn / gwneud diogelu'n bersonol.
- Eiriolaeth
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth / adborth
- Cyfathrebu

Grŵp Cyflawni Partneriaethau Diogel

A elwir hefyd yn Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin (CLOG)

Mae Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin yn adrodd wrth Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, a dyma'r grŵp amlasiantaeth gweithredol ar gyfer diogelu oedolion a phlant.

Rhan o gylch gwaith Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin yw cydweithio i sicrhau bod trefniadau diogelu ar y cyd yn gweithredu'n effeithiol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae aelodau'r Grŵp Gweithredol Lleol yn cynnwys rheolwyr ac ymarferwyr ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Sector Gwirfoddol.

Ei brif feysydd ffocws yw:

- Systemau a Phrosesau Diogelu Amlasiantaeth
- Cydweithio â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl
- Data/Gwybodaeth Sicrhau Ansawdd
- Llais yr Oedolyn a'r Plentyn
- Polisïau a Gweithdrefnau Amlasiantaeth
- Hyfforddiant Amlasiantaeth
- Archwiliadau Amlasiantaeth
- Perfformiad ac Adolygiadau Amlasiantaeth

Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol -VAWDASV-LOG)

- Ymagwedd Amlasiantaeth at fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Sefydlu Dysgu o Adolygiadau Dynladdiad Domestig
- Nodi Blaenoriaethau Lleol/anghenion heb eu diwallu
- Datblygu Strategaeth Leol/Cynllun Gweithredu
- Llais Goroeswyr
- Cysylltu â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Sefydlwyd trefniadau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu dros hanner tir Cymru, ac mae'n ffinio â 9 sir yng Nghymru, yn ogystal â siroedd yn Lloegr.

Mae swyddogaethau statudol y bwrdd yn cael eu cyflawni gan Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys, Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Cymru a'r Gwasanaeth Prawf (Cymru). Gall y bwrdd hefyd gynnwys personau neu gyrff eraill y mae o'r farn y dylai fod ganddynt gynrychiolaeth ac sy'n ymwneud â gweithgareddau neu swyddogaethau cysylltiedig â phlant neu oedolion yn ei ardal.

Mewn ymateb i boblogaeth a daearyddiaeth amrywiol y rhanbarth, mae CYSUR a CWMPAS yn cydnabod yr angen i gynnal ffocws lleol a rhanbarthol. Y diben rhanbarthol yw cydgysylltu cyfeiriad strategol, cydweithio, cysondeb a gwelliant ymarfer diogelu ar draws y rhanbarth. Y diben lleol yw cydlynu ymarfer lleol, a gweithio tuag at sicrhau trefniadau lleol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant oedolion sy'n wynebu risg, plant a phobl ifanc.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros herio asiantaethau partner perthnasol mewn perthynas â'r mesurau sydd ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'n rhaid iddo gyhoeddi **cynllun blynyddol** ac **adroddiad blynyddol** fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd.

Mae'r cynllun blynyddol yn amlinellu blaenoriaethau, canlyniadau a gweithgareddau arfaethedig y Bwrdd am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cynllun yn ystod y cyfnod adrodd perthnasol.

Mae gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ddwy ffrwd waith benodol, un ar gyfer plant (CYSUR) ac un ar gyfer oedolion (CWMPAS). Caiff y ddwy eu goruchwylio gan fwrdd rhanbarthol cyfunol sy'n cwrdd bob chwarter.

CYSUR yw Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n acronym ar gyfer 'Child and Youth Safeguarding; Unifying the Region', ac wrth gwrs mae hefyd yn air Cymraeg cyfarwydd. Mae CYSUR yn gyfuniad o'r hen Fyrddau Diogelu Plant Lleol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

CWMPAS yw Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dyma air Cymraeg sydd hefyd yn Saesneg yn acronym ar gyfer 'Collaborative Working and Maintaining Partnership in Adult Safeguarding'. Mae CWMPAS hefyd yn ymestyn ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Gyda'i gilydd caiff CYSUR a CWMPAS eu hadnabod fel Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Cysur | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Diogelu plant ac oedolion

CADW

yw'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau ac mae'n acronym ar gyfer 'Children taking Action Differently in Wales'. Mae pobl ifanc o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys yn rhan o CADW a'r nod yw:

- Sicrhau bod gan bobl ifanc ddealltwriaeth o ddiogelu
- Cynyddu ymwybyddiaeth a rhannu barn pobl ifanc
- Gweithio ar ran pobl ifanc ar draws y pedair sir
- Herio penderfyniadau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Bwrdd Strategol Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Wedi'i sefydlu fel gofyniad statudol o fewn Deddf VAWDASV 2015 i arwain gweithredu'r Ddeddf yn strategol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bartner statudol allweddol ar y Bwrdd, yn cyfrannu'n llawn at ei ffrydiau gwaith, ac yn sicrhau cysondeb da rhwng y Bwrdd a rhaglenni gwaith y Cyngor.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae dyletswydd ar yr holl gyflogeion (gan gynnwys asiantaethau, ymgynghorwyr a darparwyr a gomisiynir) i roi gwybod am bryderon ynghylch cam-drin ac esgeuluso.

Gan y Gwasanaethau Plant mae'r cyfrifoldeb am dderbyn ac ymateb i bryderon ynghylch Plant a Phobl Ifanc, a chan y Gwasanaethau Oedolion mae'r cyfrifoldeb am dderbyn ac ymateb i bryderon am oedolion sy'n wynebu risg. Dylid rhoi gwybod am bob pryder diogelu i Dîm Atgyfeiriadau Canolog y Gwasanaethau Plant (CRT) neu'r Tîm Diogelu Oedolion.

Mae pob Rheolwr Adrannol awdurdod lleol yn gyfrifol am y canlynol:

- recriwtio cyflogeion/gwirfoddolwyr yn unol â'r polisi Adnoddau Dynol perthnasol, gan gynnwys (lle y bo'n ofynnol) gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- sicrhau bod diogelu'n rhan o raglen sefydlu pob cyflogai/gwirfoddolwr.
- adnabod cyflogeion/gwirfoddolwyr sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg fel rhan o'u rôl.
- sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn gymesur â'r rôl.
- sicrhau bod yr holl gyflogeion/gwirfoddolwyr yn ymwybodol sut i roi gwybod am bryderon ynghylch diogelu ac i bwy
- sicrhau bod yr holl gyflogeion/gwirfoddolwyr yn ymwybodol o Bolisi Datgelu Camarfer y Cyngor
- sicrhau bod cyflogeion/gwirfoddolwyr yn ymwybodol bod rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n diogelu ac yn hybu llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg.
- rhoi arweiniad i gyflogeion/gwirfoddolwyr am bryderon diogelu fel y bo'n ofynnol.

Bydd Comisiynwyr Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau contractiol yn nodi cyfrifoldebau o ran diogelu yn unol â'r polisi hwn a threfniadau comisiynu presennol. Mae'n hanfodol fod y polisïau hyn yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro, ac y rhoddir gwybod am unrhyw bryderon ac y gweithredir yn eu cylch yn briodol.

Mae contractwyr, is-gontractwyr neu sefydliadau eraill a ariennir gan y Cyngor neu ar ei ran yn gyfrifol am drefnu archwiliadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (lle bo'r angen) ac am sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â threfniadau rheoleiddiol a chontractiol yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion. Mae contractwyr hefyd yn gyfrifol am hysbysu rheolwyr perthnasol yn y Cyngor ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt a'u hatgyfeirio i Ddiogelu.

Bydd disgwyl i'r holl aelodau etholedig fynychu hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg ac anghenion hyfforddiant diogelu ychwanegol fel y nodwyd.

Mae dyletswydd ar yr holl weithwyr, cynghorwyr a gwirfoddolwyr i roi gwybod am bryderon am gam-drin ac esgeuluso. **Nid mater o ddewis personol yw hyn.**

Rolau Arweinyddiaeth Uwch

Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gan y rôl, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, gyfrifoldeb terfynol ac anwahanadwy dros faterion diogelu, i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sydd mewn perygl. Cyflawnir y rôl hon gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol atebolrwydd cyfreithiol dros sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol ar waith i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl, ac mae'n Gadeirydd ar y Grŵp Diogelu Corfforaethol. Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn ar lefel gorfforaethol wrth y Prif Weithredwr, y Tîm Uwch-reolwyr, y Cabinet a'r Cyngor.

Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r pwynt cyswllt i bob Cyfarwyddwr arall roi gwybod am bryderon diogelu difrifol, a allai ddigwydd yn eu maes gwasanaeth.

Mae Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd, gan gynnwys adrodd wrth y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet Arweiniol yn ôl yr angen. Lle bo hynny'n briodol, gellir rhoi gwybod am feysydd sy'n peri pryder i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Y Prif Weithredwr

Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol yn eu lle, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau, bod y polisïau a'r gweithdrefnau hynny'n cael eu gweithredu, bod trefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle a bod yr holl ofynion statudol yn cael eu cyflawni.

Trwy gyfarfodydd un-i-un gyda Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, daw'r Prif Weithredwr i wybod am faterion diogelu perthnasol.

Arweinydd y Cyngor

Mae gan Arweinydd y Cyngor ymrwymiad clir i ddiogelu; fodd bynnag, ym mhortffolio'r aelod cabinet arweiniol dros Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion y mae'r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu plant ac oedolion a diogelu corfforaethol.

Arweinydd y Cyngor sy'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth wleidyddol gyffredinol i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau dros ddiogelu.

Aelod Cabinet Arweiniol (Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion)

Yr Aelod Cabinet dros Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion sy'n arwain yr holl agweddau ar Ddiogelu Corfforaethol a bydd yn:

- cael cyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda **Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** i gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu corfforaethol perthnasol.
- goruchwylio diogelu corfforaethol mynychu'r Grŵp Diogelu Corfforaethol.
- cael cyfarwyddyd ynghylch unrhyw achosion sensitif a allai gael eu hystyried ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant neu Oedolion neu a allai ddod yn fater o ddiddordeb cyhoeddus fel arall.
- cydweithio'n agos ag ystod o Uwch-swyddogion yn yr Awdurdod ac yn cael cyngor proffesiynol ganddynt, fel y bo'n briodol.
- cysylltu ac yn ymgynghori ag Aelodau Cabinet eraill ynghylch materion unigol sy'n debygol o effeithio ar eu portffolios fel a nodir yng Nghynllun Dirprwyo'r Cyngor
- cynrychioli ac yn gweithredu fel llysgennad i'r Cyngor yn ei waith diogelu
- sicrhau gwaith partneriaeth effeithiol mewn perthynas â materion o fewn y cylch gorchwyl hwn
- arfer rôl fonitro o ran perfformiad ac yn sicrhau cynnydd tuag at gyflawni amcanion allweddol y Cyngor yn y meysydd hyn.

Aelodau'r Cabinet

Bydd Aelodau'r Cabinet yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i sicrhau bod yna ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o unrhyw faterion diogelu corfforaethol yn eu meysydd Portffolio perthnasol.

Bydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfarwyddyd i aelodau perthnasol o'r cabinet ynghylch effeithiolrwydd trefniadau amddiffyn oedolion/amddiffyn plant ac achosion sensitif, a allai ddod yn destun Adolygiad Diogelu Unedig Sengl neu a allai ddod yn fater o ddiddordeb cyhoeddus fel arall.

Aelodau Etholedig

Rhaid i bob aelod etholedig ymgyfarwyddo â'r Polisi hwn, dilyn hyfforddiant ar eu cyfrifoldebau a gofyn am gyngor gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol os nad ydynt yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldeb dros ddiogelu.

Bydd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei gyfleu fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu orfodol ar gyfer pob aelod etholedig newydd.

Mae'n ofynnol i aelodau etholedig gael hyfforddiant diogelu gorfodol, yn ogystal â hyfforddiant gorfodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV). Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant diogelu ychwanegol a nodir fel blaenoriaeth.

Dyletswyddau aelodau etholedig fydd cadw plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl, yn ddiogel trwy:

- Sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd dros ddiogelu.
- Cyfrannu at greu a chynnal amgylchedd diogel.
- Hyrwyddo ymarfer diogel a herio ymarfer gwael neu anniogel.
- Nodi lle mae pryderon a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â nhw.

Cyfarwyddwyr

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd y trefniadau diogelu o fewn eu priod gyfarwyddiadau.

Maent yn gyfrifol am roi gwybod i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am unrhyw bryderon diogelu difrifol a allai godi yn eu cyfarwyddiaethau. Byddant yn rhoi cyfarwyddyd i'w Haelodau Cabinet priodol am unrhyw faterion diogelu ac am effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau diogelu ac yn sicrhau bod arweinydd adrannol yn chwarae rôl lawn yn nhrefniadau llywodraethu'r awdurdod.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu o fewn eu Cyfarwyddiaethau wedi'u hyfforddi'n briodol i nodi ac ymateb i bryderon diogelu.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt weithdrefnau gweithredol diogelu ar waith a bod Archwiliadau Hunanwerthuso Diogelu yn cael eu cynnal ar gyfer y meysydd gwasanaeth perthnasol o fewn eu Cyfarwyddiaeth.

Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr roi gwybod i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol am risgiau diogelu yn eu maes gwasanaeth ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu eu cyfarwyddiaeth.

Penaethiaid Gwasanaeth (Person Diogelu Dynodedig)

Mae'n ofynnol i bob maes gwasanaeth o fewn y Cyngor enwebu Person Diogelu Dynodedig ar gyfer delio â materion diogelu plant ac oedolion. Yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin, Pennaeth Gwasanaeth neu Uwch-reolwr sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r cyfarwyddwr yw'r person hwn. Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth, trwy ei dimau Rheoli yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod yr holl ofynion statudol o ran diogelu a hybu lles plant ac oedolion yn cael ystyriaeth ddyledus.

Dylai pawb wybod â phwy y dylid cysylltu yn eu sefydliad i gael cyngor ac ni ddylent oedi cyn trafod eu pryderon, pa mor ddibwys bynnag y gallant ymddangos. Er y dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r Person Diogelu Dynodedig, gall unrhyw un gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol.

Person Diogelu Dynodedig yw'r person a nodwyd o fewn y sefydliad:

- Sydd ar gael i drafod pryderon diogelu
- Y dylid ymgynghori ag ef/hi, pan fo'n bosibl, ynghylch a ddylid codi pryder gydag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol

- A fydd yn rheoli unrhyw gamau uniongyrchol i sicrhau bod unigolyn sy'n wynebu risg yn ddiogelu rhag cael ei gam-drin

Mae'r person hefyd yn gyfrifol am:

- Gweithredu fel ffynhonnell gyffredinol ac allweddol o gyngor a chymorth i staff eraill yn eu Gwasanaeth ar bob mater sy'n ymwneud â diogelu
- Sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i alluogi staff i gael cyngor a chymorth ymarfer ar gyfer diogelu o ddydd i ddydd gan eu rheolwyr llinell
- Cynorthwyo staff i atgyfeirio neu gymryd rôl arweiniol wrth roi gwybod am bryderon diogelu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel y bo'n briodol
- Bod yn gyfarwydd â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor a Gweithdrefnau Diogelu Cymru gan eu bod yn ymwneud â diogelu Plant ac Oedolion
- Sicrhau bod y gweithdrefnau gweithredol ar gyfer diogelu o fewn y gyfarwyddiaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau statudol ac yn cael eu cyhoeddi i'r holl staff
- Cynrychioli eu maes gwasanaeth ar y Grŵp Diogelu Corfforaethol fel y bo'r angen
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau yn eu maes gwasanaeth a rhoi gwybod am hyn i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol
- Mynd ar hyfforddiant perthnasol
- Sicrhau bod aelodau o'r gweithlu yn eu Gwasanaethau yn dilyn hyfforddiant ar lefelau sy'n briodol i'w rolau a'u swyddogaethau a chynnal gwybodaeth reoli ar yr hyfforddiant a ddilynir ganddynt
- Sicrhau bod cyfrifoldebau diogelu yn cael eu hamlygu drwy brosesau ymsefydlu staff, cyfarfodydd tîm, goruchwyliaeth a sesiynau cyfarwyddo staff
- Sicrhau bod archwiliadau diogelu yn cael eu cwblhau'n rheolaidd

Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol (LADO)

Bydd gan bob Awdurdod Lleol uwch-reolwr dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu sy'n atebol ac yn gyfrifol am honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol a'r rheiny sydd mewn swydd o ymddiriedaeth (PiPOT). Y teitl a roddir i'r rôl yw Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol (LADO). Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Bydd y Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau plant ac oedolion i roi cyngor ac arweiniad ar ddiogelu.

Pobl mewn Swydd o Ymddiriedaeth (PiPOT)

Mae'n bwysig nad yw ymarferwyr yn anwybyddu nac yn diystyru amheuon am ymarferydd neu gydweithiwr arall a allai fod yn cam-drin, yn esgeuluso neu'n achosi niwed i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg.

Mae cyfrifoldeb ar bob ymarferydd i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg ac mae hynny'n cynnwys eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin gan ofalwr proffesiynol, gofalwr sy'n cael ei dalu neu wirfoddolwr. Felly, mae'r ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch camdriniaeth ac esgeulustod a amheuir yn berthnasol yn y sefyllfaoedd hyn. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn cwmpasu sefyllfaoedd pan fo cam-drin yn cael ei amau yn unig.

Mae'r ddyletswydd i adrodd yn ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun gweithio. Mae hyn yn golygu os daw unrhyw ymarferydd yn ymwybodol o ymddygiad sy'n peri pryder, er enghraifft, gan ffrind, aelod o'r teulu neu gymydog, sydd hefyd yn ymarferydd, rhaid iddo/iddi leisio ei bryderon.

Rheolwyr Llinell a Goruchwylwyr

Mae pob rheolwr llinell / goruchwyliwr yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu y mae'n gyfrifol amdanynt (gan gynnwys asiantaethau, ymgynghorwyr a gwirfoddolwyr) yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt, yn unol â'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol, sy'n gymesur â'i rôl a'i gyfrifoldebau.

Gofal Cymdeithasol Cymru | Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol

Rhaid i reolwyr fynd ati i ddadansoddi lle mae'r risgiau i ddiogelu yn fwyaf tebygol o godi yn eu gwasanaeth(au) a sicrhau bod ganddynt weithdrefnau gweithredol priodol a systemau ategol ar waith i reoli'r rhain yn dda.

Rhaid iddynt sicrhau bod diogelu yn rhan o drefn ymsefydlu'r gweithlu a nodi unrhyw un sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg fel rhan o'i rôl. Rhaid iddynt sicrhau, lle bo angen, bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal ar y lefel briodol.

Dylai diogelu fod yn eitem safonol ar gyfer goruchwylio staff a chyfarfodydd tîm.
Rhaid i reolwyr sicrhau bod y gweithlu y maent yn gyfrifol amdano yn ymwybodol o sut i roi gwybod am bryderon ynghylch diogelu ac i bwy, a'u bod yn ymwybodol o Bolisi Datgelu Camarfer y Cyngor.

Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu y maent yn gyfrifol amdano yn ymwybodol bod rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n diogelu ac sy'n hyrwyddo llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Rhaid i reolwyr roi canllawiau i'r gweithlu ynghylch ymateb i bryderon diogelu fel y bo'n ofynnol.

Rhaid i reolwyr sicrhau bod contractau a chytundebau yn bodloni gofynion y Cyngor am hyfforddiant, ymsefydlu a chanllawiau a bod monitro parhaus yn digwydd i sicrhau cysondeb parhaus â gofynion y contract.

Comisiynwyr Gwasanaeth/Rheolwyr Contractau

Bydd Comisiynwyr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau contractiol yn nodi cyfrifoldebau o ran diogelu yn unol â'r polisi hwn a threfniadau comisiynu presennol.

Wrth gomisiynu gwasanaethau, rhaid ystyried yn ofalus pa fesurau diogelu sy'n ofynnol gan gontractwyr neu ddarparwyr gwasanaethau. Er enghraifft:

- Gwiriadau DBS ar y lefel briodol - disgwylir y bydd gwiriadau DBS ar waith ar gyfer unrhyw wasanaethau cludiant a gomisiynir
- Polisïau diogelu
- Hyfforddiant diogelu
- Ymarfer cadwyn gyflenwi foesegol
- Polisi caethwasiaeth fodern.

Byddai hyn yn berthnasol i wasanaethau lle mae contractwyr yn debygol o ddod ar draws plant, pobl ifanc neu oedolion sy'n wynebu risg a gall ffurfio rhan o'r trefniadau rheoli contractau.

Mae gan Reolwyr Contractau (a all hefyd fod yn gomisiynwyr) gyfrifoldeb i sicrhau bod darparwyr yn cadw at y cynigion a'r gofynion a nodir mewn contractau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn barhaus trwy gyfnod y contract, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau newydd e.e. newidiadau mewn deddfwriaeth neu ganllawiau a'u cyfleu trwy ddigwyddiadau rheoli contractau.

Contractwyr / Darparwyr a Gomisiynir

Mae Contractwyr a Gwasanaethau a Gomisiynir hefyd yn gyfrifol am hysbysu rheolwyr perthnasol yn y Cyngor ynghylch unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, a rhoi gwybod am bryderon ynghylch diogelu i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion neu Blant.

Holl Staff / Swyddogion

Mae gan bob maes gwasanaeth yn y Cyngor rôl i'w chwarae a rhaid iddynt gymryd perchnogaeth lawn o'u cyfrifoldebau diogelu. Mae'r Cyngor yn disgwyl i bob aelod o'r gweithlu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch unrhyw blentyn neu oedolyn sydd mewn perygl ac sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y Cyngor a rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am eu pryderon.

Athro Dynodedig Amddiffyn Plant

Mae'r Athro Dynodedig Amddiffyn Plant yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant. Bydd gan bob ysgol ei pholisi amddiffyn plant ei hun hefyd. Bydd y polisi'n nodi personél allweddol.

Dylid hysbysu'r Athro Dynodedig Amddiffyn Plant neu'r dirprwy yn absenoldeb yr Athro Dynodedig Amddiffyn Plant ynghylch unrhyw bryderon am ddiogelu.

Er mai'r Athro Dynodedig Amddiffyn Plant yw'r person â chyfrifoldeb am amddiffyn a diogelu plant, os oes gan aelod o staff bryderon nad yw mater wedi cael sylw, gall wneud **atgyfeiriad uniongyrchol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Arweinydd Diogelu Corfforaethol

Bydd yr arweinydd Diogelu Corfforaethol (Uwch-reolwr - Diogelu Corfforaethol ac Oedolion) yn gweithio gyda Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a'r Aelod Cabinet Arweiniol i sicrhau bod yna drefniadau effeithiol i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg ar draws y Cyngor. Yn benodol, er mwyn:

- Monitro'r modd y mae'r Polisi hwn yn cael ei weithredu a'r modd y cydymffurfir ag ef ar draws y Cyngor
- Sicrhau bod rhaglen hyfforddiant diogelu corfforaethol ar waith
- Pennu llinellau atebolrwydd clir.
- Sicrhau bod yna Arweinwyr Diogelu Dynodedig ym mhob maes gwasanaeth.
- Sicrhau bod y Fframwaith Hunanasesu Diogelu Blynyddol ar gyfer Gwerthuso (SAFE) wedi'i gwblhau (gweler **Atodiad 4**).
- Sicrhau bod yr adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Craffu yn cael ei gyflawni.

Cydnabod pryderon ac ymateb iddynt

Dylai pob gweithiwr fod yn effro i'r posibilrwydd o gam-drin. Gall unigolyn bryderu am ddiogelwch neu lesiant unigolyn mewn sawl ffordd:

- Efallai y bydd y person yn dweud wrthych.
- Efallai y bydd y person yn dweud rhywbeth sy'n peri pryder i chi.
- Efallai y bydd trydydd parti yn lleisio pryderon.
- Efallai y byddwch yn gweld rhywbeth – digwyddiad neu anaf neu arwydd arall.

Gall staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr fod yn 'llygaid a chlustiau' y Cyngor, wrth iddynt wneud eu swyddi o ddydd i ddydd, oherwydd mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. Dyma enghreifftiau o'r rhain:

- Swyddogion Tai – mae sawl adolygiad o blant ac oedolion sy'n cael eu niweidio wedi nodi pwysigrwydd Swyddogion Tai, sydd â mewnwelediad unigryw i fywydau teuluoedd ac sy'n gallu adnabod arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod neu gamfanteisio.
- Rheoli Gwastraff – mae casglwyr sbwriel yn mynd i'r un tai a chymunedau bob wythnos a gallant sylwi pryd y gallai plentyn fod yn dioddef neu mewn perygl o gamdriniaeth
- Parciau a Gerddi – gall staff neu gontractwyr fod yn effro i fannau lle mae plant a phobl ifanc yn ymgynnull, ac adnabod ymddygiadau sy'n peri pryder a allai ddangos bod rhyw fath o gamdriniaeth neu gamfanteisio yn digwydd
- Iechyd yr Amgylchedd – yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd wrth arolygu safleoedd, gall swyddogion ystyried materion diogelu y gallent ddod ar eu traws, mewn safleoedd trwyddedig, gwestai neu gartrefi pobl.

Mae gan unrhyw berson sy'n gyfrifol am blant neu oedolion sydd mewn perygl neu sy'n gweithio gyda nhw, mewn unrhyw swydd boed yn gyflogedig neu'n ddi-dâl, ddyletswydd gofal tuag atynt yn gyfreithiol ac yn gontractiol ac fel dinesydd moesol cyfrifol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i ymddwyn mewn modd nad yw'n bygwth pobl, yn eu niweidio neu'n eu rhoi mewn perygl o niwed gan eraill.

Mae gan bob rhan o'r gweithlu gyfrifoldeb i ymddwyn yn eu bywydau preifat mewn modd nad yw'n peryglu eu sefyllfa yn y gweithle neu sy'n codi cwestiynau ynglŷn â pha mor addas ydynt i weithio gyda phlant neu oedolion sydd mewn perygl. Mae hyn yn eglur yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru (Adran 5).

Mae'r ddyletswydd i roi gwybod yn ofyniad cyfreithiol a bydd methu â rhoi gwybod yn briodol yn cael ei ystyried yn fater difrifol.

Nid cyfrifoldeb unrhyw un unigolyn yw penderfynu a yw cam-drin wedi digwydd ai peidio neu a yw unigolyn mewn perygl o niwed; fodd bynnag, mae ganddo gyfrifoldeb i weithredu os oes ganddo unrhyw bryderon.

Nid rôl Cynghorau yn unig yw diogelu plant ac oedolion, mae'n gofyn am weithio amlasiantaeth effeithiol a chydweithrediad y gymuned ehangach ac asiantaethau partner, i ddatblygu a gweithredu gweithgarwch cydlynol, gan ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth leol, a gaiff ei rhannu'n briodol. Mae gan gynghorau rôl arweinyddiaeth ac eiriolaeth unigryw yn lleol ac yn gymunedol, gan weithio ochr yn ochr â'r gymuned, yr heddlu a chyrff cyhoeddus eraill, i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn aros yn ddiogel yn y mannau lle maent yn byw ac yn cwrdd.
Ni ddylid ystyried bod cam-drin yn digwydd yng nghartref y teulu yn unig. Mae angen deall ac ymateb hefyd i risg a niwed y tu allan i gartref y teulu, er mwyn creu mannau diogel i bobl Sir Gaerfyrddin.

Delio â phryder diogelu

- Peidiwch â chynhyrfu a gwrandewch yn ofalus, rhowch dawelwch meddwl i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn.
- Defnyddiwch wrando adfyfyriol a gofynnwch gwestiynau anfeirniadol agored – (beth, pwy, ble, pryd)
- Peidiwch ag addo i'r plentyn neu oedolyn y byddwch yn cadw'r mater yn gyfrinachol.
- Cofnodwch (yng ngeiriau'r person).
- Gofynnwch am gyngor pellach gan eich Arweinydd Diogelu Dynodedig neu'ch gwasanaethau cymdeithasol os oes angen.
- Esboniwch wrth y rhieni/unigolyn/gofalwr/teulu eich bod yn atgyfeirio'ch pryder ac yn cael caniatâd i wneud hynny, **oni bai eich bod yn credu y byddwch trwy wneud hynny yn rhoi'r plentyn neu'r oedolyn mewn mwy o berygl o niwed.**

Rhoi gwybod am bryder

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch diogelwch plentyn, person ifanc neu oedolyn, yna rhaid i chi roi gwybod i'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig a/neu gysylltu â Thîm Atgyfeirio Canolog y Gwasanaethau Plant neu Dîm Diogelu y Gwasanaethau Oedolion.

Plentyn	Oedolion
Os yw pryder yn ymwneud â phlentyn, cysylltwch â Thîm Atgyfeirio'r Gwasanaethau Plant (Gwasanaethau Plant) ar 01554 742322.	Os yw'r pryder yn ymwneud ag oedolyn, cysylltwch â Thîm Cyngor ac Asesu'r Gwasanaethau Oedolion (Llesiant Delta) ar 0300 333 22222.
Tu Allan i Oriau Arferol	**Argyfwng**
Dylid cysylltu â Thîm y Tu Allan i Oriau Arferol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 0300 333 2222 os yw'r mater yn codi ar ôl 5:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a Gwyliau Banc.	**Rhaid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl, neu os cyflawnwyd trosedd.**

Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol

I gael cyngor ynghylch Ymarferwyr neu Bersonau mewn Swydd o Ymddiriedaeth, gallwch hefyd gysylltu â Swyddogion Dynodedig Awdurdod Lleol (LADO)

Plant	Rebecca Robertshaw E-bost: LADO@sirgar.gov.uk
Oedolion	Cathy Richards E-bost: LADO@sirgar.gov.uk

Monitro ac Adolygu

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin fframwaith llywodraethu effeithiol. Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a fydd yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cabinet a bydd yn rhoi cyfle i herio'r gwaith a wnaed.

Bydd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn.

Atodiad 1

Beth yw Camdriniaeth?

Mae Adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 Adran 7 yn darparu diffiniadau o ‘cam-drin’ ac ‘esgeuluso’:

Ystyr "cam-drin" yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae’n cynnwys cam-drin sy’n digwydd mewn unrhyw leoliad, p’un ai mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall).

Mae’r canlynol yn rhestr anghynhwysfawr o enghreifftiau ar gyfer pob categori cam-drin ac esgeuluso:

Cam-drin corfforol

Cam-drin rhywiol

Cam-drin seicolegol

Cam-drin ariannol

Esgeuluso

Dylid cofio bod Diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb ac y gall unrhyw unigolyn roi gwybod am bryder i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni all gweithwyr proffesiynol aros yn ddienw wrth wneud atgyfeiriadau.

Plant - Categorïau a dangosyddion cam-drin ac esgeuluso

Mae plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fydd rhywun yn achosi niwed iddo neu'n methu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol, gan bobl y maent yn eu hadnabod neu, yn fwy prin, gan rywun dieithr. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed gael ei gam-drin neu ei esgeuluso a gall fod angen ei amddiffyn trwy gynllun amddiffyn plant rhyngasiantaethol.

Cam-drin corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol mewn ffordd arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio neu’n achosi salwch mewn plentyn o dan ei ofal.

Cam-drin emosiynol

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol dros amser i’r graddau lle achosir effeithiau niweidiol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gallai olygu cyfleu’r syniad i’r plentyn ei fod yn ddiwerth neu fod neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu â gwerth ond i’r graddau ei fod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys beichio

plentyn â disgwyliadau anaddas i'w oed neu ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blentyn deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft, trwy orfod bod yn dyst o fewn y cartref i gam-drin domestig neu trwy gael ei fwlio. Gall hefyd olygu cam-fanteisio ar neu lygru plant. Mae elfen o gam-drin emosiynol yn perthyn i bob math o gamdriniaeth, er y gall fodoli ar ei ben ei hun.

Esgeuluso

Esgeuluso yw methiant cyson i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu methiant rhiant neu ofalwr i ddarparu digon o fwyd, cysgod neu ddillad, methiant i amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol addas. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu fethu ag ymateb iddyn nhw. Gall esgeuluso ddigwydd hefyd yn ystod beichiogrwydd pan fydd mam yn camddefnyddio sylweddau.

Cam-drin Plant yn Rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithredoedd olygu cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddio i gorff y plentyn neu beidio. Gallan nhw fod yn weithredoedd sydd ddim yn cynnwys cyffwrdd, fel cynnwys plant yn y broses o edrych ar neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig, o wylio gweithredoedd rhywiol neu o annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.

Math o gam-drin rhywiol lle camfanteisir yn rhywiol ar blant ar gyfer arian, pŵer neu statws yw camfanteisio'n rhywiol ar blant. Gall gynnwys ymosodiadau rhywiol treisgar, bychanol a diraddiol. Mewn rhai achosion, caiff pobl ifanc eu perswadio neu eu gorfodi i gyfnewid gweithgaredd rhywiol am arian, cyffuriau, rhoddion, serch neu statws. Ni ellir rhoi cydsyniad, hyd yn oed lle mae plentyn o bosibl yn credu ei fod yn cymryd rhan yn wirfoddol mewn gweithgaredd rhywiol gyda'r person sy'n camfanteisio ar y plentyn. Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant wastad yn cynnwys cyswllt corfforol a gall ddigwydd ar-lein. Mae nifer sylweddol o blant sy'n ddioddefwyr camfanteisio rhywiol yn mynd ar goll o'u cartref, o sefydliad gofal ac o leoliad addysg ar ryw adeg.

Diogelu Plant mewn Addysg

Bydd gan bob ysgol Athro Dynodedig Amddiffyn Plant sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant. Bydd gan bob ysgol ei pholisi amddiffyn plant ei hun hefyd. Bydd y polisi'n nodi personél allweddol.
Dylid hysbysu'r Athro Dynodedig Amddiffyn Plant neu'r dirprwy yn absenoldeb yr Athro Dynodedig Amddiffyn Plant ynghylch unrhyw bryderon am ddiogelu.

Dylai staff sicrhau eu bod yn cadw cofnodion llawn a chywir o'u pryderon, gan gynnwys manylion unrhyw ddatgeliadau, a dylent gynnwys camau a gymerwyd, e.e. 'wedi atgyfeirio at yr Athro Dynodedig Amddiffyn Plant.
Mae cadw cofnodion yn allweddol bwysig wrth ymdrin â diogelu a dylai cofnodion fod yn glir, yn fanwl a gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barn.

Rhaid i gofnodion wastad gynnwys enw'r plentyn, dyddiad y digwyddiad/pryder, enw llawn y person sy'n gwneud y cofnod a manylion y cam gweithredu a gymerwyd a'r bobl y siaradwyd â hwy.

Er mai'r Athro Dynodedig Amddiffyn Plant yw'r person â chyfrifoldeb am amddiffyn a diogelu plant, os oes gan aelod o staff bryderon nad yw mater wedi cael sylw gall wneud atgyfeiriad ei hun.

Oedolion sy'n Wynebu Risg - Categorïau a dangosyddion camdriniaeth

Cam-drin corfforol

Taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth amhriodol neu sancsiynau amhriodol.

Cam-drin rhywiol

Treisio ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn wedi cydsynio neu na allai'r oedolyn gydsynio â hwy a/neu y rhoddwyd pwysau ar yr oedolyn i gydsynio â hwy.

Cam-drin seicolegol

Bygythiadau i wneud niwed i rywun neu ei adael, rheolaeth drwy orfodaeth, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol (mae rheolaeth drwy orfodaeth yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, bychanu, dychrynu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr).

Esgeuluso

Methiant i gael mynediad at ofal neu wasanaethau meddygol, esgeulustod yn wyneb cymryd risgiau, methiant i roi meddyginiaeth a ragnodwyd, methiant i gynorthwyo gyda hylendid personol neu ddarparu bwyd, lloches, dillad; esgeuluso emosiynol.

Cam-drin ariannol

Mewn perthynas â phobl y gall fod ganddynt anghenion am ofal a chymorth ac mae'n cynnwys:

- newid annisgwyl i'w hewyllys.
- gwerthu neu drosglwyddo'r cartref yn sydyn
- gweithgarwch anarferol mewn cyfrif banc
- cynnwys enwau ychwanegol yn sydyn ar gyfrif banc
- y llofnod ddim yn debyg i lofnod arferol y person
- cyndynrwydd neu orbryder gan y person wrth drafod ei faterion ariannol
- rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti
- diddordeb mwyaf sydyn gan berthynas neu drydydd parti yn lles y person.

- biliau'n mynd heb eu talu
- cwynion bod eiddo personol ar goll
- dirywiad mewn ymddangosiad personol a all ddynodi bod diet a gofynion personol yn cael eu hanwybyddu
- ynysu bwriadol oddi wrth ffrindiau a theulu a hynny'n rhoi rheolaeth lwyr i berson arall ar benderfyniadau.

Gallai unrhyw fathau o gam-drin o blith yr uchod gael eu hysgogi gan nodweddion personol y dioddefwr. Gall hyn ei wneud yn drosedd casineb. Mae hyn yn golygu trosedd sydd, yn ôl canfyddiad y dioddefwr neu unrhyw berson arall, yn un a ysgogwyd gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol gwirioneddol neu ganfyddedig rhywun.

Cam-drin corfforol - taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth amhriodol neu sancsiynau amhriodol.

Mathau o gam-drin corfforol

- Ymosod, taro, slapio, dyrnu, cicio, tynnu gwallt, brathu, gwthio
- Trin yn arw
- Sgaldio a llosgi
- Cosbau corfforol
- Defnydd amhriodol neu anghyfreithlon o ataliaeth
- Gwneud rhywun yn anghysurus ar bwrpas (e.e. agor ffenestr a mynd â blancedi oddi wrtho)
- Ynysu neu gaethiwed anwirfoddol
- Camddefnyddio meddyginiaeth (e.e. gor-dawelyddu)
- Bwydo trwy rym neu wrthod rhoi bwyd
- Ataliaeth anawdurdodedig, cyfyngu ar symudiad (e.e. clymu rhywun yn sownd mewn cadair)

Arwyddion posibl o gam-drin corfforol

- Dim esboniad ar gyfer anafiadau neu anghysondeb â'r cyfrif o'r hyn a ddigwyddodd
- Mae'r anafiadau'n anghyson â ffordd y person o fyw
- Cleisio, toriadau, waldiau, llosgiadau a/neu farciau ar y corff neu golli gwallt mewn talpiau
- Anafiadau mynych
- Cwympiadau heb eu hegluro
- Ymddygiad sy'n dawedog neu wedi newid ym mhresenoldeb person penodol
- Arwyddion o ddiffyg maeth
- Methiant i geisio triniaeth feddygol neu newid y meddyg teulu'n fynych

Cam-drin rhywiol - treisio ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn agored i niwed wedi cydsynio neu na allai gydsynio â hwy a/neu y rhoddwyd pwysau arno i gydsynio â hwy.

Gall dangosyddion cam-drin rhywiol fod yn gorfforol ac ymddygiadol, gan gynnwys:

- Clefydau a drosglwyddir yn rhywiol yn dod i'r amlwg o'r newydd
- Anhawster eistedd neu gerdded sydd wedi dod i'r amlwg o'r newydd
- Anaf pelfig
- Cleisiau ar du mewn y cluniau neu o gwmpas yr organau cenhedlu
- Poen, gwaedu neu gosi yn yr anws neu'r organau cenhedlu
- Dillad isaf sy'n waedlyd, wedi rhwygo neu â staen arnynt
- Cynnwrf eithafol
- Tynnu'n ôl o ryngweithiadau cymdeithasol
- Pyliau o banig, neu anhwylder straen wedi trawma
- Ymddygiad rhywiol amhriodol, ymosodol neu anarferol
- Ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad

Cam-drin seicolegol - bygythiadau i wneud niwed i rywun neu ei adael, rheolaeth drwy orfodaeth,
bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol (mae rheolaeth drwy orfodaeth yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod,
bygythiadau, bychanu, dychrynu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr).

Mathau o gam-drin seicolegol neu emosiynol:

- Ynysu cymdeithasol dan orfodaeth – atal rhywun rhag cael mynediad at wasanaethau, cyfleoedd addysgol a chymdeithasol a rhag gweld ffrindiau
- Tynnu cymhorthion symudedd neu gyfathrebu i ffwrdd neu adael rhywun yn fwriadol heb unrhyw un i ofalu amdano pan fo angen cymorth arno
- Atal rhywun rhag diwallu ei anghenion crefyddol a diwylliannol
- Atal rhywun rhag mynegi ei ddewis a'i farn
- Methiant i barchu preifatrwydd
- Atal symbyliad, galwedigaeth neu weithgareddau ystyrlon
- Dychrynu, gorfodaeth, aflonyddu, defnyddio bygythiadau, bychanu, bwlio, rhegi neu gam-drin geiriol
- Cyfarch person mewn ffordd nawddoglyd neu sy'n ei drin fel plentyn bach
- Bygythiadau i wneud niwed i rywun neu ei adael
- Seiberfwlio

Dangosyddion posibl cam-drin seicolegol neu emosiynol:

- Natur dawedog pan fo person penodol yn bresennol
- Cilio'n ôl neu newid yng nghyflwr seicolegol y person
- Diffyg cwsg
- Diffyg hunan-barch
- Ymddygiad anghydweithredol ac ymosodol
- Newid mewn archwaeth, colli/magu pwysau
- Arwyddion o ofid: dagreuol, dicter
- Honiadau sydd i'w gweld yn ffug, gan rywun sy'n gysylltiedig â'r person, i ddenu triniaeth ddiangen

Esgeuluso - methiant i gael mynediad at ofal neu wasanaethau meddygol, esgeulustod yn wyneb cymryd risgiau, methiant i roi meddyginiaeth a ragnodwyd, methiant i gynorthwyo gyda hylendid personol
neu ddarparu bwyd, lloches, dillad; esgeuluso emosiynol. (Gweler hefyd hunan-esgeuluso)

Mathau o esgeuluso:

- Methiant i ddarparu neu ganiatáu mynediad at fwyd, lloches, dillad, gwresogi, symbyliad a gweithgarwch, gofal personol neu feddygol.
- Darparu gofal mewn ffordd nad yw'r person yn ei hoffi.
- Methiant i roi meddyginiaeth fel a ragnodwyd. Gwrthod mynediad i ymwelwyr.
- Peidio ag ystyried anghenion diwylliannol, crefyddol neu ethnig unigolion.
- Peidio ag ystyried anghenion addysgol, cymdeithasol a hamdden.
- Anwybyddu neu ynysu'r person.
- Atal y person rhag gwneud ei benderfyniadau ei hun.
- Atal mynediad at sbectol, cymhorthion clyw, dannedd gosod a.y.b.
- Methiant i sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Arwyddion posibl o esgeulustod:

- Amgylchedd gwael – brwnt neu anhylan.
- Cyflwr corfforol a/neu hylendid personol gwael.
- Briwiau pwysau neu wlserau.
- Diffyg maeth neu golli pwysau heb eglurhad.
- Anafiadau a phroblemau meddygol heb eu trin.
- Cyswllt anghyson neu gyndyn â sefydliadau gofal meddygol a chymdeithasol.
- Croniad o feddyginiaeth heb ei chymryd.
- Methiant annodweddiadol i ryngweithio'n gymdeithasol.
- Dillad amhriodol neu annigonol.

Cam-drin ariannol *mewn perthynas â phobl y gall fod ganddynt anghenion am ofal a chymorth -.*
Mae'r dangosyddion posibl yn cynnwys:

- newid annisgwyl i'w hewyllys.
- gwerthu neu drosglwyddo'r cartref yn sydyn.
- gweithgarwch anarferol mewn cyfrif banc.
- cynnwys enwau ychwanegol yn sydyn ar gyfrif banc.
- y llofnod ddim yn debyg i lofnod arferol y person.
- cyndynrwydd neu orbryder gan y person wrth drafod ei faterion ariannol.
- rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti.
- diddordeb mwyaf sydyn gan berthynas neu drydydd parti yn llesiant y person
- biliau'n mynd heb eu talu.
- cwynion bod eiddo personol ar goll.
- dirywiad mewn ymddangosiad personol a all ddynodi bod diet a gofynion personol yn cael eu hanwybyddu.
- ynysu bwriadol oddi wrth ffrindiau a theulu a hynny'n rhoi rheolaeth lwyr i berson arall ar benderfyniadau.

Hunan-esgeuluso

Mae galluedd yn ffactor hynod arwyddocaol i ddeall sefyllfaoedd o hunan-esgeuluso ac ymyrryd ynddynt.

Gall hunan-esgeuluso ddigwydd o ganlyniad i ddewis unigolyn o ran ei ffordd o fyw, neu gall y person:

- fod yn isel ei ysbryd,
- bod yn wael ei iechyd,
- bod â phroblemau gwybyddol (cof neu wneud penderfyniadau), neu fod heb allu corfforol i ofalu amdano'i hun.

Mathau o hunan-esgeuluso:

- Diffyg hunan-ofal i'r graddau bod hynny'n fygythiad i iechyd a diogelwch personol.
- Peidio â gofalu am ei hylendid personol, ei iechyd neu ei amgylchoedd ei hun.
- Anallu i osgoi hunan-niwed.
- Methiant i geisio help neu fynediad at wasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Anallu neu amharodrwydd i reoli ei faterion personol ei hun.

Dangosyddion hunan-esgeuluso:

- Hylendid personol gwael iawn.
- Ymddangosiad anniben.
- Diffyg bwyd, dillad neu loches hanfodol.
- Diffyg maeth a/neu ddysychiad.
- Byw dan amodau aflan neu afiach.
- Peidio â chynnal a chadw'r aelwyd.
- Celcio.
- Casglu nifer fawr o anifeiliaid dan amodau amhriodol.
- Diffyg cydymffurfio â gwasanaethau iechyd neu ofal.
- Anallu neu amharodrwydd i gymryd meddyginiaeth neu drin afiechyd neu anaf.

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Caiff ystod o fathau o drais eu cydnabod o dan y term Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Defnyddir llawer o'r termau hyn fel termau ymbarél, ac nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd, mae'r rhain yn cynnwys:

Trais ar Sail Rhywedd (GBV)
Mae trais ar sail rhywedd yn golygu trais sy'n cael ei gyfeirio at berson yn seiliedig ar rywedd. Mae'n torri'r hawl sylfaenol i fywyd, rhyddid, diogelwch, urddas, cydraddoldeb rhwng menywod a dynion, peidio â gwahaniaethu ac uniondeb corfforol a meddyliol (Cyngor Ewrop, 2011).

Trais rhwng Partneriaid Agos
Mae trais rhwng partneriaid agos yn ymddygiad gan bartner agos neu gynbartner sy'n achosi niwed corfforol, rhywiol neu seicolegol, gan gynnwys ymddygiad ymosodol

corfforol, gorfodaeth rywiol, cam-drin seicolegol, cam-drin economaidd ac ymddygiadau rheoli (Sefydliad Iechyd y Byd, 2017)

Trais a Cham-drin Domestig
Defnyddir y term trais a cham-drin domestig i gyfeirio at drais mewn lleoliad domestig, gan gynnwys trais rhwng partneriaid agos, ond gall y term hefyd gwmpasu trais plentyn i riant neu gam-drin pobl hŷn neu gamdriniaeth gan unrhyw aelod o deulu neu aelwyd.

Trais a Cham-drin Rhywiol
Mae trais rhywiol, ymosodiad rhywiol neu aflonyddu rhywiol yn cynnwys unrhyw weithred rywiol, ymgais i gael gweithred rywiol, neu weithred arall a gyfeirir yn erbyn rhywioldeb unigolyn gan ddefnyddio gorfodaeth, gan unrhyw berson beth bynnag yw ei berthynas â'r dioddefwr, mewn unrhyw leoliad (Sefydliad Iechyd y Byd, 2012b). Gall gweithredoedd treisgar rhywiol ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau a gallant gynnwys treisio o fewn priodas neu o fewn perthynas; treisio gan ddieithriaid; cam-drin plant yn rhywiol; puteindra gorfodol neu fasnachu pobl at ddibenion camfanteisio rhywiol ac aflonyddu rhywiol (Krug et al., 2002).

Rheolaeth drwy Orfodaeth
Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, bychanu a dychrynu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr. Mae'r ymddygiad rheoli hwn wedi'i fwriadu i wneud person yn ddibynnol trwy eu hynysu rhag cymorth, camfanteisio arnynt, eu hamddifadu o annibyniaeth a rheoli eu hymddygiad bob dydd (Cymorth i Fenywod, 2020b). Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn aml yn cynnwys trais corfforol a gorfodaeth rywiol ac mae tystiolaeth bod achosion sy'n ymwneud â rheoli drwy orfodaeth yn fwy tebygol o arwain at niwed difrifol, gan gynnwys lladdiad domestig, nag achosion sy'n cynnwys gweithredoedd ar wahân o drais corfforol (Myhill and Hohl, 2019).

Priodas dan Orfod
Priodas dan orfod yw pan nad yw un o'r ddau berson neu'r ddau ohonynt yn cydsynio i'r briodas (neu mewn achosion o bobl sydd â rhai anableddau dysgu, pan nad ydynt yn gallu gwneud hynny) a bod pwysau neu gamdriniaeth yn cael ei ddefnyddio. Caiff ei gydnabod fel math o drais yn erbyn menywod a dynion, cam-drin domestig/cam-drin plant, math o gaethwasiaeth fodern, a throsedd difrifol yn erbyn hawliau dynol.

Priodas Plentyn
Mewn perthynas â phriodas plentyn, ystyrir nad yw unrhyw blentyn (o dan 18 oed) yn gallu dewis priodi o'i wirfodd. Mae cymhlethdodau'n codi pan fo hawl gyfreithiol i blentyn briodi'n gynharach (o 16 oed) gyda chaniatâd rhiant, fel yn y DU.

Cam-drin ar sail Anrhydedd fel y'i gelwir (HBA)
I rai cymunedau, ystyrir bod y cysyniad o 'anrhydedd' yn hynod bwysig, mae peryglu 'anrhydedd' teulu yn dod ag amarch a chywilydd a gall hyn arwain at ganlyniadau difrifol. Gall y gosb am ddod ag amarch fod yn gam-drin emosiynol, cam-drin corfforol, diarddel o'r teulu ac mewn rhai achosion hyd yn oed llofruddiaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion o gam-drin ar sail anrhydedd fel y'i gelwir mae sawl un yn cyflawni'r trosedd.

Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM)
Mae anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn cynnwys pob arfer sy'n cynnwys tynnu organau cenhedlu allanol benywod yn rhannol neu'n llwyr, achosi anaf arall iddynt, neu newid organau cenhedlu benywod am resymau anfeddygol.

Caethwasiaeth Fodern / Masnachu Pobl
Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd difrifol sy'n torri hawliau dynol. Mae'r troseddau hyn yn cynnwys dal person mewn swydd o gaethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfodaeth neu orfodol, neu hwyluso ei daith gyda'r bwriad o gamfanteisio arno'n fuan wedyn. Caiff dioddefwyr eu gorfodi, eu bygwth neu eu twyllo i sefyllfaoedd o ddarostyngiad, diraddiad a rheolaeth sy'n tanseilio eu hunaniaeth bersonol a'u hymdeimlad o'r hunan. O fewn hyn, mae masnachu pobl yn cynnwys camfanteisio gorfodol ar eraill, fel arfer at ddibenion rhywiol neu lafur.

Er bod masnachu mewn pobl yn aml yn cynnwys elfen drawsffiniol, mae hefyd yn bosibl bod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern yn eich gwlad eich hun. Mae'n bosibl bod yn ddioddefwr hyd yn oed os rhoddwyd cydsyniad i'w symud.

Ni all plant roi cydsyniad i rywun gamfanteisio arnynt, felly nid oes angen i'r elfen o orfodaeth neu dwyll fod yn bresennol i brofi bod trosedd wedi digwydd.

Aflonyddu Rhywiol
Caiff aflonyddu rhywiol ei ddiffinio fel ymddygiad rhywiol digroeso. Mae hyn yn cynnwys derbyn negeseuon e-bost neu negeseuon testun digroeso a/neu anweddus, neu gynigion anweddus a/neu amhriodol ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol.

Trais mewn perthnasoedd ymhlith pobl ifanc.
Mae trais mewn perthnasoedd ymhlith pobl ifanc, a elwir hefyd yn gam-drin mewn perthnasoedd ymhlith pobl ifanc, yn cyfeirio at gam-drin partner mewn perthynas neu bartner rhywiol yn emosiynol, yn gorfforol neu'n rhywiol lle mae o leiaf un person yn ei arddegau.

Troseddau Casineb

Ystyr Digwyddiad Casineb yw unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr, neu unrhyw un arall, yn meddwl ei fod yn seiliedig ar ragfarn rhywun tuag at y dioddefwr oherwydd ei hil, ei grefydd, ei gyfeiriadedd rhywiol, ei anabledd neu am ei fod yn drawsryweddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am Droseddau Casineb (gan gynnwys sut i roi gwybod am drosedd casineb) ar wefan Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin.

Troseddau Casineb (llyw.cymru)

Atodiad 2

Canllawiau / Deddfwriaeth Berthnasol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Diogelu Corfforaethol - Canllaw Ymarfer Da
- Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru) 2020
- Deddf Addysg 2002
- ‘Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020' - Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol dan Ddeddf Addysg 2002
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrolau 5 a 6
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a gyflwynwyd yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Tai 2004
- Deddf Trwyddedu 2003
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Canllawiau Prevent y Swyddfa Gartref – Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017

Atodiad 3

GRŴP DIOGELU CORFFORAETHOL (Llywodraethu Diogel)

CYLCH GWAITH (v9)

Mehefin 2026



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cyflwyniad

Mae Diogelu Corfforaethol yn disgrifio'r trefniadau sydd ar waith y mae Cyngor yn eu gwneud ac i sicrhau bod ei gyflogeion i gyd yn chwarae eu rhan i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg o niwed. *(Diogelu Corfforaethol: Canllawiau Ymarfer Da, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Llywodraeth Cymru)*

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin wedi'i sefydlu i sicrhau bod diogelu yn cael ei roi'n gadarn ar agenda'r **awdurdod cyfan,** ac nid dim ond y gwasanaethau hynny sydd â dyletswyddau amlwg a chlir mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb, a nod y grŵp yw hyrwyddo a chynnal ei bwysigrwydd ar draws pob cyfarwyddiaeth, gan ymgorffori egwyddorion diogelu craidd ar lefel gorfforaethol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau uchaf o ymarfer diogelu ar draws y sefydliad cyfan, ac mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol, gyda'i aelodaeth o uwch-swyddogion a'r aelod cabinet arweiniol dros Ddiogelu, a chefnogaeth ei grwpiau cyflawni diogelu cysylltiedig, yn allweddol i gyflawni'r nod hwn.

Nodau ac Amcanion

Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn:

- Rhoi sicrwydd i'r Cabinet a'r Prif Weithredwr fod gweithdrefnau corfforaethol y Cyngor ar draws y sefydliad gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn gadarn ac yn effeithiol.
- Arwain ac yn cyfeirio'r Cyngor mewn perthynas â threfniadau diogelu corfforaethol, gan sicrhau bod diogelwch a llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol.
- Sicrhau bod yr holl weithwyr, gwirfoddolwyr, aelodau etholedig a gwasanaethau dan gontract yn deall eu cyfrifoldebau unigol a chyfunol dros gadw plant ac oedolion yn ddiogel.
- Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Ymateb i sylwadau'r Cabinet, y pwyllgorau craffu, archwilwyr mewnol/allanol a rheoleiddwyr allanol
- Nodi blaenoriaethau diogelu mewn ymateb i'r uchod
- Ystyried a chymeradwyo polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau diogelu corfforaethol o fewn y Cyngor
- Dadansoddi gwybodaeth am berfformiad i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi diogelu corfforaethol, deddfwriaeth berthnasol, canllawiau statudol a safonau diogelu Sir Gaerfyrddin.

- Cefnogi Swyddogion Arweiniol Diogelu Dynodedig i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws gwasanaethau.
- Goruchwylio archwiliadau ac arolygiadau mewnol neu allanol sy'n ymwneud â threfniadau diogelu Cyngor Sir Caerfyrddin, a chydweithio â'r sawl sy'n eu cynnal.
- Goruchwylio a gweithredu ar ganfyddiadau archwilio ac arolygu, gan gynnwys unrhyw welliannau angenrheidiol.
- Helpu archwilio mewnol i fonitro gweithdrefnau diogelu a goruchwylio unrhyw adroddiadau ac argymhellion yn ôl yr angen.
- Nodi a datrys problemau a allai atal rhoi gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith.
- Sicrhau bod perthnasoedd yn cael eu cynnal gydag asiantaethau partner, darparwyr gwasanaeth a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael a bod cyflogeion, aelodau etholedig, gwirfoddolwyr, a gwasanaethau dan gontract yn ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw.
- Ystyried ac ymateb i wybodaeth am berfformiad diogelu corfforaethol a nodi unrhyw gyfleoedd i wella.
- Ystyried goblygiadau unrhyw Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl lleol, rhanbarthol neu genedlaethol neu unrhyw adolygiad diogelu arall, a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithiol i unrhyw argymhellion.
- Helpu'r grwpiau cyflawni diogelu corfforaethol i lunio, arwain a monitro datblygiad cynllun gwaith ar gyfer y Cyngor mewn perthynas â diogelu corfforaethol.
- Sicrhau bod adolygiad blynyddol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol ac o gynnwys gwefannau mewnol ac allanol.
- Llunio Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol ar gyfer y Pwyllgorau Craffu perthnasol a'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

Aelodaeth

- **Cadeirydd** - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Aelod Arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol (Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion)
- Y Prif Weithredwr Cynorthwyol - Rheoli Pobl a Pherfformiad
- Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden
- Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Pennaeth Addysg
- Pennaeth Cynhwysiant
- Rheolwr Gwasanaeth Amddiffyn Plant (Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol)
- Uwch-reolwr Amddiffyn Oedolion (Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol)
- Cynrychiolwyr Diogelu Dynodedig y Gyfarwyddiaeth
- Cadeirydd y Grŵp Cyflawni - Partneriaethau Diogel
- Cadeirydd Grŵp Cyflawni - Gweithlu a Gweithle Diogel
- Cadeirydd y Grŵp Cyflawni - Ymarfer a Pherfformiad Diogel

- Cadeirydd y Grŵp Cyflawni - Grŵp Gweithredol Lleol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (I'w gadarnhau)

Gall swyddogion eraill gael eu cyfethol yn ôl yr angen a chytunir arnynt gan y grŵp.

Bydd aelodau'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn chwarae rôl weithredol wrth sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion. Bydd pob aelod o'r grŵp yn hyrwyddo diogelu o fewn ei gyfarwyddiaeth a'r sefydliad ehangach. Bydd Aelodau yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau diogelu corfforaethol a sicrhau lefelau uchel o gydymffurfiaeth. Bydd gan bob aelod o'r grŵp fynediad brys at y Cyfarwyddwr Statudol, y Prif Weithredwr Cynorthwyol neu'r Aelod Arweiniol dros Ddiogelu os oes angen. Os bydd unrhyw aelod o'r grŵp yn methu mynychu cyfarfod, rhaid i'r aelod sicrhau bod swyddog priodol yn bresennol yn ei le. Mae'n rhaid rhoi gwybodaeth briodol i'r swyddog sy'n dirprwyo, ac mae'n rhaid ei fod yn gallu cyfrannu'n llawn at y cyfarfod.

Amlder Cyfarfodydd

Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cwrdd bob chwarter.

Gellir trefnu cyfarfodydd ad-hoc neu frys ar unrhyw adeg fel sy'n cael ei ystyried yn briodol.


Llywodraethu ac Adrodd

Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob chwe mis neu'n fwy aml fel y bo'r angen.

Bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r prif feysydd ffocws a gweithgarwch yn y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad perthnasol, ac yn nodi'r blaenoriaethau sydd ar ddod i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Polisi Diogelu Corfforaethol a disgwyliadau diogelu eraill.

Bydd Cadeirydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol a/neu Gadeirydd y Grŵp Cyflawni Partneriaethau Diogel yn rhoi gwybod i Fwrdd Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru am unrhyw faterion brys sy'n codi neu themâu sy'n dod i'r amlwg a allai fod yn berthnasol i'r rhanbarth ac ar draws asiantaethau.

Strwythur Llywodraethu Diogelu Corfforaethol



Atodiad 4

Fframwaith Hunanasesiad Diogelu ar gyfer Gwerthuso Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN: FFRAMWAITH HUNANASESIAD DIOGELU AR GYFER GWERTHUSO (SAFE)

Cyflwyniad

Yn unol â Pholisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin, disgwylir i bob sefydliad gynnal archwiliad blynyddol o'u trefniadau a'u harferion diogelu, yn seiliedig ar broses o hunanwerthuso.

Mae'r fframwaith archwilio canlynol wedi'i drefnu mewn adrannau sy'n gysylltiedig â gwahanol safonau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i chi feddwl am yr arferion a'r gweithdrefnau yn eich maes gwasanaeth. Mae wedi'i fwriadu i roi dealltwriaeth i chi o ddiogelu yn eich meysydd cyfrifoldeb eich hunain, sut maent yn cyd-fynd â disgwyliadau diogelu corfforaethol a sut y gellid datblygu'r rhain. Yn ogystal, mae'r archwiliadau yn rhoi trosolwg i Gyngor Sir Caerfyrddin o arferion diogelu ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r Grŵp Ymarfer a Pherfformiad Diogel yn adolygu'r ymatebion archwilio ac yn rhoi diweddariad i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol. Bydd yr adolygwyr yn darparu cyngor a chymorth dilynol lle bo hynny'n briodol. Mae'r wybodaeth archwilio o gymorth i'r Cyngor wrth ddatblygu arferion diogelu ar lefel ehangach.

Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod yr archwiliadau'n cael eu cwblhau'n flynyddol a'u dychwelyd i'r Rheolwr Diogelu Corfforaethol. CRichards@sirgar.gov.uk

Meddyliwch yn ofalus am ddiogelu yn eich maes gwasanaeth; cwblhewch yr archwiliad hyd eithaf eich gwybodaeth a meddyliwch sut y byddwch yn dangos tystiolaeth ar gyfer eich ymatebion. Cwblhewch y System RAG (Coch, Oren neu Wyrdd – gweler isod) a chofnodwch eich canfyddiadau a'ch cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd y nodwyd bod angen rhoi rhagor o sylw iddynt neu eu datblygu ymhellach. (adran 7)

Rhestrwch y gwasanaethau rydych yn adrodd yn eu cylch yn yr archwiliad hwn. Lle bo'n berthnasol, byddwch yn benodol yn eich archwiliad ynghylch pa wasanaeth y gwneir sylwadau arno. (e.e. Canolfan Hamdden, Gwasanaeth Dydd, Llyfrgell, Cartref Gofal, Tîm Gwaith Cymdeithasol)

Mae'r system goleuadau traffig yn ymwneud â sut y mae maes gwasanaeth yn asesu ei hun o ran cyrraedd y safon ofynnol. Os yw'ch maes gwasanaeth yn asesu ei hun fel coch neu oren, dylech gofnodi pa gamau rydych yn teimlo sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn yn adran 7. Os nad ydych yn siŵr pa gamau allai fod yn angenrheidiol, gofynnwch am gyngor gan y Rheolwr Diogelu Corfforaethol.

Ar ddiwedd pob adran, cewch gyfle i fyfyrio ar y mesurau gan roi adroddiad ar yr hyn yr ydych chi'n teimlo eich bod yn ei wneud yn dda fel maes gwasanaeth; ble gallwch wella ac os oes angen unrhyw gymorth arnoch i ymgorffori 'diogelu' yn rhan o'ch ymarfer.

N.B – Nid yw'n ofynnol i ysgolion gwblhau'r archwiliad hwn a rhaid iddynt barhau i gwblhau'r archwiliad diogelu ysgolion blynyddol

Coch	Rhai agweddau heb fod yn eu lle ac mae angen gweithredu ar frys
Oren	Rhai agweddau ar waith, angen eu hadolygu neu eu gwella
Gwyrdd	Popeth yn ei le, yn gyfoes, ac yn cyrraedd y safon ofynnol

Adran 1: Trosolwg o'r Asesiad

Teitl yr Archwiliad	Fframwaith Hunanasesiad Diogelu ar gyfer Gwerthuso Blynyddol (SAFE)
Maes Gwasanaeth	
Arweinydd yr Archwiliad	
Pennaeth y Gwasanaeth	
Dyddiad yr Archwiliad	
Cyfnod adolygu a gwmpesir yn yr archwiliad hwn	

Diweddariad cynllun gweithredu o'r asesiad diwethaf

Dyddiad yr Archwiliad blaenorol:

Cryfderau	Meysydd i'w Gwella	Camau Gofynnol	Person Cyfrifol	Erbyn Pryd	Diweddariad Cynnydd	Sgôr RAG R A G

Adran 2: Llywodraethu Diogel ac Arweinyddiaeth

Cwestiwn Asesiad	Safon ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Tystiolaeth / Sylwadau	Sgôr RAG R A G
Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn Berson Diogelu Dynodedig, a yw'r holl staff yn gwybod pwy yw'r unigolion hyn a sut i gysylltu â nhw?	Mae enwau a manylion cyswllt Penaethiaid Gwasanaeth yn cael eu rhannu â'r staff o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhoddir gwybod am newidiadau mewn Penaethiaid Gwasanaeth pan gânt eu penodi Rhaid i'r holl staff a gwirfoddolwyr wybod pwy yw'r person diogelu dynodedig (Pennaeth Gwasanaeth), a gwybod sut i gysylltu â nhw. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn hwylus yn nogfennau'r maes gwasanaeth.	Penaethiaid Gwasanaeth (Mawrth 2026) Alex Williams Aneirin Thomas Chris Harrison Daniel John Gareth Jones Gill Adams Helen Pugh Ian Jones Joanna Jones Jonathan Morgan Kate Burton Paul Thomas Randal Hemingway Rhodri Griffiths Simon Davies Steve Murphy Vicky Jeremy Agendâu / cofnodion cyfarfod tîm		
A yw'r staff yn ymwybodol o'r aelod etholedig sy'n gyfrifol am Ddiogelu, ac a ydynt yn gwybod sut i gysylltu â'r person hwn?	Mae'n rhaid i staff wybod pwy yw'r aelod etholedig sy'n gyfrifol am ddiogelu, a meddu ar y manylion er mwyn cysylltu â'r aelod drwy sianeli cyfathrebu swyddogol.	Y Cynghorydd Jane Tremlett Diogelu Corfforaethol Polisi Diogelu Corfforaethol - Cyngor Sir Caerfyrddin		

Cwestiwn Asesiad	Safon ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Tystiolaeth / Sylwadau	Sgôr RAG R A G
A yw'r holl staff a gwirfoddolwyr yn eich maes gwasanaeth wedi cael y Polisi Diogelu Corfforaethol?	Mae'n rhaid dosbarthu'r Polisi Diogelu Corfforaethol i'r holl staff a gwirfoddolwyr, ac mae'n rhaid cofnodi eu bod wedi ei dderbyn a'i ddeall.	Polisi Diogelu Corfforaethol - Cyngor Sir Caerfyrddin Agendâu / cofnodion cyfarfod tîm		
A yw diogelu yn eitem agenda reolaidd ym mhob cyfarfod?	Rhaid cynnwys diogelu ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd tîm, a'i drafod o leiaf unwaith bob chwarter.	Agendâu / cofnodion cyfarfod tîm		
A yw diogelu yn cael ei drafod yn rheolaidd wrth oruchwylio staff	Rhaid cynnwys diogelu mewn sesiynau goruchwylio gyda staff i sicrhau bod pryderon yn cael eu codi a'u hadrodd yn y modd priodol.	Templedi goruchwylio staff		
A yw'r holl staff yn ymwybodol o'r Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol (LADO) sy'n gyfrifol am reoli pryderon ynghylch staff a gwirfoddolwyr mewn swydd o ymddiriedaeth?	Rhaid i bob aelod o staff wybod pwy yw'r LADO a deall beth yw ei rôl o ran rheoli pryderon diogelu am staff a gwirfoddolwyr mewn swydd o ymddiriedaeth.	Diogelu Cymru (adran 5) Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol Cathy Richards LADO@sirgar.gov.uk PiPOT yn gweithio gydag Oedolion Rebecca Robershaw LADO@sirgar.gov.uk PiPOT yn gweithio gyda Phlant Polisi Diogelu Corfforaethol - Cyngor Sir Caerfyrddin		

Adran 3: Gweithlu a Gweithle Diogel

Cwestiwn Asesiad	Safon ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Tystiolaeth / Sylwadau	Sgôr RAG R A G
A yw'r prosesau recriwtio diogel, gan gynnwys gwirio geirda, gwiriadau DBS, hawl i weithio, a chofrestriadau proffesiynol, bob amser yn cael eu dilyn ar gyfer penodiadau newydd?	Rhaid i bob penodiad newydd fod yn destun gwiriadau recriwtio diogel cynhwysfawr, gan gynnwys geirdaon, DBS, hawl i weithio, a gwirio cofrestriad proffesiynol. Mae cymwysterau hanfodol a chofrestriad proffesiynol yn cael eu gwirio (mae hyn hefyd yn berthnasol i staff asiantaeth) Mae rheolwyr recriwtio yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol yn cael eu cynnal cyn i'r person ddechrau'r swydd	Recriwtio Mathau o wiriadau DBS Tystiolaeth bod Rheolwyr sy'n recriwtio wedi cwblhau hyfforddiant recriwtio Diogel Tystiolaeth bod y ddogfennaeth wedi cael ei gweld ac mewn trefn. Gwiriadau DBS wedi'u cwblhau os yw'n ymwneud â gwaith wedi'i reoleiddio Gwirio dogfennau hunaniaeth a hawl i weithio Cofrestriad proffesiynol ar waith (h.y. gwirio'r gofrestr briodol) Cynnal cyfweliad wyneb yn wyneb Gwirio cyflogaeth flaenorol Geirdaon yn cwmpasu o leiaf 5 mlynedd o hanes cyflogaeth flaenorol Mynd ar drywydd unrhyw anghysondebau'n ddi-oed Rhaid i reolwyr recriwtio BEIDIO â dibynnu ar wiriadau a gynhelir gan asiantaeth recriwtio, a rhaid iddynt fwrw golwg drostynt eu hunain ar yr holl ddogfennau a chynnal yr holl wiriadau angenrheidiol fel yr uchod.		

Cwestiwn Asesiad	Safon ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Tystiolaeth / Sylwadau	Sgôr RAG R A G
A yw'r holl staff a gwirfoddolwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i'w rôl?	Rhaid i'r holl staff a gwirfoddolwyr gwblhau hyfforddiant diogelu sy'n benodol i'w rôl, gan gynnwys cyrsiau gorfodol fel diogelu Grŵp A. VAWDASV a PREVENT.	Cofnod o'r hyfforddiant gorfodol a gwblhawyd. Hyfforddiant diogelu cenedlaethol, dysgu a... | Gofal Cymdeithasol Cymru Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | LLYW.CYMRU Thinqi- Hyfforddiant dyletswydd Prevent - GOV.UK		
A yw'r cofnodion o hyfforddiant diogelu yn cael eu cynnal a'u monitro yn gywir gan reolwyr?	Rhaid i gofnodion hyfforddi gael eu cynnal yn gywir ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr.	Thinqi Cadw a chynhyrchu cofnodion		
A yw'r hyfforddiant diweddaru ynghylch diogelu yn cael ei gwblhau ar adegau priodol yn achos yr holl staff y mae ei angen arnynt?	Rhaid cwblhau hyfforddiant diweddaru yn rheolaidd fel sy'n ofynnol. Rhaid adnewyddu'r lefel uchaf o hyfforddiant a gwblhawyd yn flynyddol. h.y. Os oes angen hyfforddiant hyd at lefel C ar ddeiliad swydd, rhaid adnewyddu'r hyfforddiant lefel C bob blwyddyn. Ni fydd angen ailadrodd Lefel A - B	Thinqi Diweddaru cofnodion hyfforddiant a chynhyrchu data		

Cwestiwn Asesiad	Safon ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Tystiolaeth / Sylwadau	Sgôr RAG R A G
A yw'r cyfrifoldebau diogelu wedi'u nodi'n glir ym mhob proffil swydd ac yn cael eu hadlewyrchu mewn strwythurau trefniadaethol?	Rhaid diffinio'r cyfrifoldebau diogelu yn glir ym mhob proffil swydd a'u hadlewyrchu mewn strwythurau trefniadaethol. Rhaid i bob proffil swydd newydd gynnwys y datganiad "Diogelu fel cyfrifoldeb ar bawb"	proffil swydd-job profile		
A yw'r holl gyflenwyr a chontractwyr allanol yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau diogelu wrth wneud gwaith ar ran yr Awdurdod Lleol?	Rhaid i'r holl gyflenwyr a chontractwyr allanol fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau diogelu wrth wneud gwaith ar ran yr Awdurdod Lleol. Mae disgwyliadau diogelu wedi'u nodi'n glir mewn dogfennaeth gaffael ac yn cael eu cyfathrebu yn ystod y broses dendro	Gofynnir Cwestiynau Safonol yn y Cam Cymhwyso ar gyfer pob tendr **(Diogelu) - Mae amddiffyn plant ac oedolion o'r pwys mwyaf.** Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau neu sy'n ymgymryd â gwaith ar gyfer neu ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin gynnal safonau diogelu cadarn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol mewn gweithdrefnau diogelu, cynnal gwiriadau cefndir trylwyr, a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Tystiolaeth: Ffurflen Cofnodi Tendr (dylai ffurflen o'r fath wedi'i llofnodi fod ar gael ar gyfer pob tendr sydd dros £30k). Cafodd diogelu ei ychwanegu at y ffurflen yn 2025.		

Cwestiwn Asesiad	Safon ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Tystiolaeth / Sylwadau	Sgôr RAG R A G
A yw'r holl gontractau â darparwyr gwasanaeth a nwyddau allanol yn cynnwys gofynion a disgwyliadau diogelu clir?	Rhaid i'r contractau â darparwyr allanol gynnwys gofynion a disgwyliadau diogelu clir.	Tystiolaeth: Dogfennaeth sy'n benodol i dendr gan gynnwys Manyleb Tendr Polisi Diogelu'r Cyngor Iechyd a Diogelwch, Diogelu a Llesiant Gweithwyr		
A yw'r rheolwyr contract yn adolygu contractau yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â disgwyliadau diogelu?	Rhaid i'r rheolwyr contract adolygu contractau yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau diogelu.	Dogfen Allweddol: Rheolau Gweithdrefnau Contractau Tystiolaeth: Telerau ac Amodau Contract Gweithgarwch Monitro Contract		

Adran 4: Ymarfer a Gweithdrefnau Diogel

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A yw'r holl staff a gwirfoddolwyr yn deall eu cyfrifoldebau diogelu unigol a chyfunol?	Rhaid i'r holl staff a gwirfoddolwyr ddeall eu cyfrifoldebau diogelu unigol a chyfunol, gyda chymorth cyfarfodydd briffio rheolaidd a chanllawiau ysgrifenedig.	Egluro'r ddyletswydd i roi gwybod Diogelu Cymru Oedolion Diogelu Cymru Plant		

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A oes gweithdrefnau clir a hygyrch ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelu, ac a yw'r holl staff a gwirfoddolwyr yn gwybod sut i gael cyngor a rhoi gwybod am bryderon diogelu ynghylch plant ac oedolion sy'n wynebu risg?	Mae'n rhaid bod gweithdrefnau clir a hygyrch ar waith ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelu, a dylai'r holl staff a gwirfoddolwyr gael hyfforddiant ynghylch sut i gael cyngor a gwneud atgyfeiriadau ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg.	. Diogelu Corfforaethol Oedolion - 0300 333 2222 Plant - 01554 742322		
A yw'r staff a'r gwirfoddolwyr yn gallu adnabod risgiau radicaleiddio, ac a ydynt yn gwybod sut i wneud atgyfeiriad PREVENT?	Mae'n rhaid bod staff a gwirfoddolwyr yn gallu adnabod risgiau radicaleiddio ac yn gwybod sut i wneud atgyfeiriad PREVENT.	Ffurflen Atgyfeirio Prevent Partneriaid Cymru Gyfan Prif egwyddorion Prevent (hygyrch) - GOV.UK Hyfforddiant PREVENT ar Thinqi		
A yw'r holl staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o gamdriniaeth ac esgeulustod?	Mae'n rhaid bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant ynghylch adnabod y gwahanol fathau o gamdriniaeth ac esgeulustod.	Polisi Diogelu Corfforaethol - Cyngor Sir Caerfyrddin Diogelu Cymru (gweler yr adran oedolion) Diogelu Cymru (gweler yr adran plant)		

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A yw'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu gwasanaeth-benodol yn gyfredol ac yn gyson â'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'r ddeddfwriaeth berthnasol? **A yw'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn hygyrch i'r holl staff, gwirfoddolwyr, aelodau etholedig, a defnyddwyr gwasanaeth?**	Mae'n rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu gwasanaeth-benodol fod yn gyfredol ac yn gyson â'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu fod yn hygyrch i staff, gwirfoddolwyr, aelodau etholedig a defnyddwyr gwasanaeth.	Mae'n rhaid i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol gymeradwyo'r polisïau, gweithdrefnau neu ddogfennau canllaw. Polisi Diogelu Corfforaethol - Cyngor Sir Caerfyrddin Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Diogelu Cymru		
A yw eich maes gwasanaeth yn cadw cofnodion cywir o'r holl adroddiadau am ddiogelu sy'n cael eu gwneud a'r cyngor sy'n cael ei roi?	Rhaid cadw cofnodion cywir o'r holl adroddiadau am ddiogelu a'r cyngor a roddir.	Mae'n rhaid bod gan bob maes gwasanaeth ddull ar gyfer nodi unrhyw adroddiadau am ddiogelu a wneir neu unrhyw gyngor diogelu a roddir. Diogelu Cymru (gweler adran 2)		
A yw'r gwersi o adolygiadau diogelu yn cael eu rhannu âstaff a'u hymgorffori i'r ymarfer?	Rhaid rhannu'r gwersi o adolygiadau diogelu â staff a'u hymgorffori i'r ymarfer o ddydd i ddydd lle bo'n briodol.	Cysur | Adolygiadau Ymarfer Plant Cysur | Adolygiadau Ymarfer Oedolion Agendâu / cofnodion cyfarfod tîm		

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A yw'r staff i gyd yn gwybod i bwy maent yn uniongyrchol atebol o ran llesiant oedolion sy'n wynebu risg a phlant, a beth yw eu lefel atebolrwydd?	Rhaid i'r staff i gyd wybod i bwy maent yn uniongyrchol atebol o ran oedolion sy'n wynebu risg a phlant, a deall eu lefel o atebolrwydd.	Polisi Diogelu Corfforaethol - Cyngor Sir Caerfyrddin		
A yw'r holl staff yn ymwybodol o'r polisi datgelu camarfer ac â phwy i gysylltu os oes ganddynt bryderon?	Rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r polisi datgelu camarfer a gwybod â phwy i gysylltu os oes ganddynt bryderon.	Y Polisi Datgelu Camarfer Y Polisi Datgelu Camarfer Medi 2024 - Amddiffyniad Cyfreithiol i Weithwyr sydd â Phryderon yn y Gwaith		
A yw'r staff a'r gwirfoddolwyr yn cael gwybod am ddiweddariadau a newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi neu ymarfer diogelu a allai effeithio ar eich maes gwasanaeth?	Rhaid rhoi gwybod i'r staff a'r gwirfoddolwyr am unrhyw ddiweddariadau a newidiadau mewn deddfwriaeth, polisïau neu ymarfer diogelu sy'n berthnasol i'w maes gwasanaeth.	Gweithdrefnau Diogelu Cymru Diogelu Cymru Dylai staff a gwirfoddolwyr fynychu digwyddiadau dysgu diogelu a drefnir yn lleol neu'n rhanbarthol. (e.e. Wythnos Genedlaethol Diogelu) – tystiolaeth i'w darparu Cysur | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Diogelu plant ac oedolion		

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A yw'r staff a'r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd rhannu gwybodaeth pan fo pryderon diogelu?	Rhaid i'r staff a'r gwirfoddolwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfreithiol ac ymarferol rhannu gwybodaeth mewn sefyllfaoedd diogelu.	Mae gan staff a gwirfoddolwyr rwymedigaeth a hawl gyfreithiol i rannu gwybodaeth pan fydd ganddynt bryderon diogelu, hyd yn oed os nad ydynt yn siŵr bod rhywun yn wynebu risg. Ni chewch eich erlyn am rannu gwybodaeth o'r fath. Cysur | Chwalu Mythau Mewn Rhannu Gwybodaeth Mewn Gwaith Diogelu Amlasiantaeth		

Adran 5: Gwaith Amlasiantaeth a Phartneriaethau Diogel

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A yw'r defnyddwyr gwasanaeth a'r cwsmeriaid yn cael gwybod sut i adnabod pryderon diogelu a rhoi gwybod amdanynt?	Rhaid rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth a chwsmeriaid sut i adnabod pryderon diogelu a rhoi gwybod amdanynt, gan ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.	Gweld rhywbeth, clywed rhywbeth, dweud rhywbeth! Mae'r daflen hon yn cael ei harddangos ym mhob maes gwasanaeth a man cyhoeddus  Mae manylion am sut i godi pryderon diogelu a manylion cyswllt yn cael eu harddangos i gwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth		
A yw'r prosesau adborth a chwynion yn glir ac yn hygyrch i staff, gwirfoddolwyr, a defnyddwyr gwasanaeth?	Rhaid i brosesau adborth a chwynion fod yn glir, yn hygyrch, ac yn gynhwysol i staff, gwirfoddolwyr, a defnyddwyr gwasanaeth.	Nifer y cwynion neu ganmoliaeth a dderbyniwyd Tystiolaeth o sut mae'r gwasanaeth yn ymateb i adborth a chwynion. Cwynion / Canmoliaeth - Cyngor Sir Caerfyrddin		

Adran 6: Partneriaethau a Gwaith Amlasiantaeth

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A yw'r staff yn gweithio gyda chymunedau, asiantaethau gwirfoddol a statudol i ddiogelu plant ac oedolion?	Rhaid i staff weithio gyda chymunedau, asiantaethau gwirfoddol a statudol i ddiogelu plant ac oedolion, a dangos hynny trwy fentrau ar y cyd a rhannu gwybodaeth.	Diogelu Corfforaethol – Canllaw Arfer Da Tudalen 7		
A yw'r staff a'r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o swyddogaethau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac a ydynt yn defnyddio adnoddau ac yn cael diweddariadau gan y Bwrdd yn rheolaidd?	Rhaid i'r staff a'r gwirfoddolwyr fod yn ymwybodol o swyddogaethau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, a defnyddio'i adnoddau a chael diweddariadau yn rheolaidd.	Cysur | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Diogelu plant ac oedolion Agendâu a chofnodion cyfarfod tîm		
A yw'r staff a'r gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi a rhannu gwybodaeth blynyddol, fel Wythnos Genedlaethol Diogelu?	Mae'r staff i gyd yn cael gwybod am ddigwyddiadau wythnos genedlaethol diogelu, ac yn cael eu hannog i fynychu.	Cysur | Wythnos Genedlaethol Diogelu Tystiolaeth o bresenoldeb mewn digwyddiadau Diogelu.		
A yw diogelu bob amser yn cael ei ystyried yn ystod cynllunio strategol, gan edrych ar gryfderau, meysydd i'w gwella, ac ymgorffori dysgu newydd?	Rhaid i ddiogelu gael ei ystyried yn ystod cynllunio strategol, gan edrych ar gryfderau presennol, meysydd i'w gwella, ac ymgorffori dysgu newydd.	Fframwaith Rheoli Perfformiad 2022		

Adran 7: Cyfrifoldebau Diogelu sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

(Bydd gan rai meysydd gwasanaeth ddyletswyddau/cyfrifoldebau diogelu unigryw y mae'n rhaid eu nodi yma - trafodwch gyda'r Rheolwr Diogelu Corfforaethol)

Cwestiwn Asesiad	Safon Ofynnol	Enghreifftiau o Dystiolaeth, Canllawiau, Dogfennau allweddol	Ateb / Tystiolaeth	Sgôr RAG R A G
A oes unrhyw gyfrifoldebau diogelu gwasanaeth-benodol sy'n unigryw i'ch maes gwasanaeth y dylid eu nodi a'u trafod gyda'r Rheolwr Diogelu Corfforaethol?				

Adran 8: Canfyddiadau Hunanasesu a Chynllun Gweithredu

Y Cryfderau	Meysydd i'w Gwella	Camau Gofynnol	Person Cyfrifol	Amserlen	Sgôr RAG R A G

Adran 9: Risgiau Diogelu

Risgiau Diogelu a nodwyd	Camau Lliniaru	Cynnwys ar y Gofrestr Risg Adrannol Do/Naddo	Dyddiad

Adran 10: Cymeradwyo'r Hunanasesiad

Enw	Rôl	Dyddiad	Llofnod
	PENNAETH Y GWASANAETH		

Sicrhewch fod yr hunanasesiad hwn yn cael ei gwblhau'n flynyddol. Rhannwch archwiliadau a gwblhawyd gyda'r Rheolwr Diogelu Corfforaethol CRichards@sirgar.gov.uk (Ar gyfer goruchwyliaeth a sicrwydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol)